19EG FEHEFIN

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol

## Wythnos yma

### Tafwyl

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ddigwyddiad Tafwyl dros y penwythnos yng Nghastell Caerdydd, ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. Mae'r ŵyl yn rhad ac am ddim, ac mae'n addo penwythnos llawn hwyl i'r teulu cyfan.
Bydd bandiau amrywiol yn perfformio drwy'r dydd, ynghyd â digwyddiadau celf, gemau a chwaraeon i blant, a digonedd o fwyd, diod a stondinau i'w mwynhau.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Blwyddyn 2 yn canu am 4.15yp ddydd Sadwrn, ar Lwyfan yr Ysgolion. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at eu cefnogi a dathlu eu perfformiad.

Diolch i bawb sy'n bwriadu ymuno â ni ac rydym yn edrych ymlaen at benwythnos bendigedig o Gymriectod, cerddoriaeth a chymuned.

### Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau mawr i dîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 6 wnaeth gynrychioli ysgolion Caerdydd yn rownd derfynol y Cwis Llyfrau ddoe yn Aberystwyth, ac am ddod yn ail trwy Gymru gyfan! Tipyn o gamp! Trafododd y disgyblion yn wych, gan ddangos gwybodaeth, hyder a brwdfrydedd ac fe wnaethant hefyd greu argraff gyda'u hysbyseb greadigol.
Diolch o galon i'r disgyblion am eu gwaith caled a'u hymroddiad drwy gydol y gystadleuaeth.

Hoffem hefyd ddiolch i Mr Evans am eu hyfforddi, ac i Mr Evans a Miss Lewis am fynd gyda'r plant i Aberystwyth a'u cefnogi drwy'r dydd.

Rydym yn hynod falch o'u cyflawniadau.

## Calendr

**Tafwyl**
**Mehefin 20**

**Mabolgampau Bl 3 a 4**
**Mehefin 24**

**Mabolgampau Derbyn, Bl 1 a Bl 2**
**Mehefin 25**

**Bore Agored y Feithrin**
**Mehefin 24**

**Tregwyl**
**Mehefin 26**

**Pob hwyl i dîm pêl droed merched Bl 5 a 6 a thîm rygbi cymysg bl 4. Bydd y ddau dîm yn cystadlu yn nhwrnamaint Cymru yr Urdd, yn Aberystwyth, dros y penwythnos. Diolch i'r staff sydd wedi eu hyfforddi.**

# **Tregwyl**

Mae Tregwyl bron â chyrraedd, a ry'n ni'n edrych ymlaen at ŵyl haf gwych i holl gymuned Ysgol Treganna. Er mwyn helpu i wneud y diwrnod yn llwyddiant, ry'n ni'n chwilio am **wirfoddolwyr** o blith rhieni, gofalwyr a chefnogwyr yr ysgol i helpu ar y bar a'r stondinau bwyd. Bydde hyd yn oed slot byr o 30 munud yn gwneud gwahaniaeth mawr, felly cysylltwch a Ceri Edwards ar 07872 389934 os gallwch chi helpu. Byddem hefyd yn ddiolchgar iawn am **gyfraniadau o gacennau** er mwyn eu gwerthu yn yr ŵyl i godi arian i'r ysgol. Mae croeso mawr i gacennau cartref neu gacennau wedi'u prynu o siop. Dewch â nhw i dderbynfa Ysgol Treganna erbyn bore 26 Mehefin.Mae **tocynnau raffl** ar gael i'w prynu arlein nawr. Dim ond £1 yr un yw'r tocynnau, ac mae gwobrau gwych ar gael. Bydd y raffl yn cael ei thynnu yn ystod Tregwyl.
**Prynwch docynnau raffl yma**
Mae hefyd **gyfraniad mynediad gwirfoddol** o £1 yr oedolyn, ac nid oes angen cyfraniad ar gyfer plant. Gellir gwneud y cyfraniad hwn cyn y diwrnod ei hun.
**Cyfraniad mynediad gwirfoddol yma**Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth. Eich haelioni a'ch cymorth sy'n ein helpu ni i gynnal digwyddiadau fel Tregwyl. Gobeithio gwnewch chi fwynhau'r ŵyl!
Diolch yn fawr,
Ffrindiau Ysgol Treganna / PTA



## Cinio ysgol

Rydym am eich hysbysu bod problem dechnegol gyda chyfarpar y gegin ar hyn o bryd. Rydym eisoes wedi gofyn am ddiweddariad gan y sir ynghylch y gwaith trwsio angenrheidiol, ac rydym yn cysylltu â nhw'n ddyddiol i gael cadarnhad pryd bydd y broblem yn cael ei datrys a'r gwasanaeth cinio arferol yn gallu ailddechrau.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr anghyfleustra y gall hyn ei achosi i deuluoedd

.Er gwaethaf y broblem, mae darpariaeth cinio yn parhau. Mae brechdanau yn cael eu paratoi i'r disgyblion gan Wasanaeth Arlwyo Cyngor Caerdydd, ac mae anghenion dietegol pob plentyn yn cael eu diwallu'n llawn.

Bydd y ddarpariaeth o frechdanau yn parhau'r wythnos nesaf, a gofynnwn i chi archebu ar Paren tPay fel arfer.Byddwn yn anfon neges ddiweddaru atoch yr wythnos nesaf gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

Diolch yn fawr iawn am eich amynedd a'ch dealltwriaeth.

## Gazebos

Mae'r rhagolygon tywydd ar gyfer yr wythnos nesaf yn awgrymu y bydd yn boeth iawn,felly rydym yn dymuno sicrhau bod ein diwrnodau mabolgampau yn gyfforddus ac yn ddiogel i bawb.

Yn ystod yr wythnos, byddwn yn cynnal mabolgampau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, yn ogystal â mabolgampau Blwyddyn 3 a 4.

Er mwyn darparu digon o gysgod ar y cae, hoffem ofyn yn garedig os oes gennych gazebos y gallem eu benthyg ar gyfer y digwyddiadau hyn, byddem yn hynod ddiolchgar. Os ydych yn gallu benthyg un, cysylltwch â'r dderbynfa.

Diolch yn fawr.

## Patrwm Iaith yr Wythnos

Beth mae (enw) yn gwisgo…

Mae (enw) yn gwisgo…Dydy (enw) ddim yn gwisgo…

**Her**

Mae e'n/hi'n gwisgo…ond dydy e/hi ddim yn gwisgo…

Dydyn nhw ddim yn gwisgo…ond maen nhw'n gwisgo…

**Testun trafod yr wythnos**

Mae llyfrau yn well na ffilmiau, trafodwch…

**Cân yr wythnos**

S'dim clem da fi - Penbleth

**Idiom yr wythnos**

Bod yn gefn i rywun